Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 24 Chwefror 2025 am 7:00 yr hwyr.

| ENW | PRESENNOL | YMDDIHEURO |
|---|---|---|
| Alan Harper-Smith | ✓ | |
| Andrew Parry (Cadeirydd) | ✓ | |
| Greta Hughes | ✓ | |
| Gwenllian Davenport Hughes | ✓ | |
| Hywel James Sinclair Evans | | ✓ |
| Ian Goronwy Williams (Is-gadeirydd) | ✓ | |
| John Brinley Jones | ✓ | |
| Keith Williams | ✓ | |
| Kevin Wheatley | | ✓ |
| Thomas Victor Jones | ✓ | |
| William Roger Jones | ✓ | |
| **HEFYD** | | |
| Caroline Jones (Clerc) | ✓ | |
| Ann Llwyd (cyfieithydd, ar Zoom) | ✓ | |
| * wedi cyrraedd neu adael y cyfarfod lle cofnodwyd. | | |

1. **Presennol ac ymddiheuriadau**
   Rhestrwyd yr aelodau'n bresennol, yn ogystal â'r ymddiheuriadau, yn y tabl uchod.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant ariannol na phersonol.

3. **Cofnodion - er mwyn cywirdeb yn unig. Cyngor 27 Ionawr 2025**
   Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol fel rhai cywir.
   Cynigiwyd gan: Thomas Victor Jones
   Eiliwyd gan: William Roger Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **4.1.** Cais am gymhorthdal gan Theatr Bara Caws. Yn dilyn trafodaeth: **Cytunwyd: I gynnig £50 i Theatr Bara Caws.**
   **4.2.** Ysgol Ddeintyddol ym Mangor - sylw i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn trafodaeth: **Cytunwyd: i gefnogi ymdrechion yr AS Siân Gwenllian am Ysgol Ddeintyddol ym Mangor ac i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd y Cabinet, Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Jeremy Miles i'r perwyl hynny.**

   **Gweithredu:**
   - **Clerc i roi gwybod i Theatr Bara Caws bod Cyngor Cymuned Llanbedrog yn cynnig £50 o gyfraniad iddynt.**
   - **Clerc i ysgrifennu at Weinidog Llywodraeth Cymru Jeremy Miles yn cefnogi ysgol ddeintyddol ym Mangor.**

5. **Llwybrau**
   Diolchwyd i'r Gwasanaeth Tân am eu gwaith rheoli a diffodd tân ar Fynydd Tir y Cwmwd ar y 13 o Chwefror. .

**Gweithredu:**

- **Y Clerc i anfon llythyr o ddiolch i'r Gwasanaeth Tân.**
- **Clerc i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am adolygiad o'r llwybrau atal tân ar Fynydd Tir y Cwmwd.**
- **Clerc wirio bod y gwaith twtio llwybrau a ofynnwyd amdano yn y cyfarfod diwethaf wedi ei wneud.**

6. **Y Fynwent, y Fynwent Newydd**

Adroddodd y Clerc nad oedd Dilwyn Williams wedi bod i drwsio'r wal yn y fynwent a'i bod wedi ei atgoffa sawl gwaith. Roedd wedi addo dechrau cyn gynted â phosib.
Adroddwyd hefyd bod y Clerc wedi cysylltu gyda chwmni LWH ym Mhwllheli am gyngor ar ddatblygiadau i'r fynwent newydd; efalla y byddent yn gallu bod o gymorth ac wedi argymell cyfarfod i drafod y mater.
**Gweithredu: Y Clerc i gydweithio efo John Brinley Jones a Greta Hughes i fynd â'r mater Fynwent Newydd ymhellach, a threfnu cyfarfod gyda LWH.**

7. **Cae Chwarae**

Adroddwyd bod Rhys Jones wedi methu gosod y ffens gan fod y ddaear yn graig, a'i bod wedi cynghori y byddai rhaid cael contractwr arall i'w osod.

Roedd adroddiad gan Alaw Ceris, Cadeirydd Pwyllgor y Cae Chwarae, wedi ei dderbyn yn gofyn am adborth Cyngor Cymuned Llanbedrog ar arwyddion. Gan dderbyniwyd yr adroddiad yn fuan cyn cyfarfod nid oedd wedi bod yn bosib ei gynnwys gyda phapurau'r cyfarfod.
**Gweithredu:**

- **Clerc anfon adroddiad Alaw Ceris ymlaen i aelodau'r Cyngor Cymuned am adborth o fewn wythnos.**
- **Cadeirydd drafod defnyddio arian grant AHNE Cronfa'r Cae Chwarae ar gyfer y ffens ac arwyddion fel bo angen.**

8. **Neuadd y Pentref**

Adroddodd Ian Williams yn ôl o gyfarfod diwethaf y pwyllgor. Cafwyd pris i lanhau'r neuadd - £150 + TAW am lanhau un waith.
**Cytunwyd: i fwrw ymlaen i archebu'r gwaith glanhau ac i'r cwmni anfonebu Cyngor Cymuned Llanbedrog am y gwaith, a chael ad-daliad amdano gan Bwyllgor Neuadd Pentref.**

Roedd Keith Williams wedi ymchwilio prisiau am ddrysau newydd i'r neuadd; byddai gwaith peintio yn cael ei ystyried hefyd.

Hysbyswyd Noson Grempog a oedd yn digwydd yn y neuadd yr wythnos ganlynol, i godi arian at yr ysgol ac Ysgol Feithrin.

Nodwyd nad oedd y switshys golau/gwresogydd wedi eu trwsio eto.

**Gweithredu: Clerc i ofyn am ddiweddariad ar y gwaith trwsio switshys gan Barbara Warren.**

**9. Taliadau**

**9.1.** Cytunwyd i'r taliadau isod:

a) Cyflog y Clerc: £443.67
b) PAYE & YG: £111.00
c) Ann Llwyd: £45.00

Derbyniwyd yn unfrydol.

**9.2. Derbyniadau**

a) G. Parry: £290

Derbyniwyd manylion y derbyniadau er gwybodaeth.

**9.3.** Datganiadau banc: Rhannwyd y datganiadau gyda'r papurau o flaen llaw, y balansau oedd:

a) Natwest Business Reserve: £1,202.25
b) Natwest Current: £26,378.43
c) Natwest Liquidity Manager: £71,572.32

**10. Ceisiadau Cynllunio**

**10.1.** C25/0066/38/CC - Pen Dyffryn, Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7UA
Dim gwrthwynebiad os yw'n cyd-fynd efo cyngor Swyddog Coed Cyngor Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.45.

Cyfarfod nesaf dydd Llun, Mawrth 31, 2025.

| |
|---|
| **COFNODION DRAFFT WEDI EU CADARNHAU GAN Y CADEIRYDD**<br><br>**ARWYDDWYD** *D.A Parry* **DYDDIAD:** 10/03/2025 |
| **COFNODION WEDI EU CADARNHAU**<br><br>**ARWYDDWYD** **DYDDIAD:** |